# Y Labordy 2021 - Canllawiau a Chwestiynau Cyffredinol

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **2** |
| **Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau** | **3** |
| **Pwy all ymgeisio?** | **3** |
| **Sut ydw i'n ymgeisio?** | **4** |
| **Allai gael cymorth i wneud cais?** | **5** |
| **Manylion cyswllt** | **6** |
| **Beth sy'n digwydd i fy nghais?** | **6** |
| **Asesiad** | **7** |
| **Amserlen Y Labordy** | **7** |
| **Cwestiynau Cyffredinol** | **8** |
| ***Atodiad - Arian Loteri Ffilm Cymru Wales CBC - Telerau Busnes Safonol*** | **11** |

## Cyflwyniad

Ffilm Cymru yw'r asiantaeth ddatblygu ar gyfer ffilm yng Nghymru ac rydym yn bartner cyflenwi cenedlaethol ar gyfer RHWYDWAITH y BFI. Trwy gyllid y Loteri Genedlaethol, mae RHWYDWAITH y BFI yn dod ag asiantaethau ffilm o bob rhan o'r DU ynghyd i ddarganfod, i ddatblygu ac i ariannu awduron, cyfarwyddwyr a chynhyrchwyr newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg. Mae ein gweithgaredd RHWYDWAITH BFI Cymru yn cefnogi gwneuthurwyr ffilm ar y lefel hon a aned neu sy'n byw yng Nghymru.

## Beth yw Y Labordy?

Rhaglen ddatblygu broffesiynol yw **Y Labordy** ar gyfer cynhyrchwyr ffilm, teledu a theatr sy'n dod i'r amlwg ac sydd â'r gallu i weithio yn y Gymraeg. Mae'n cynnig cyfleoedd i ehangu gwybodaeth, i ddatblygu sgiliau ac i lunio cynllun gweithredu o ran gyrfa, o dan arweiniad mentor profiadol sy'n gweithio yn y diwydiant.

Dan arweiniad S4C, Cyngor Celfyddydau Cymru, Ffilm Cymru Wales a RHWYDWAITH BFI Cymru, mae **Y Labordy** yn dychwelyd am y trydydd tro. Yn y gorffennol mae'r rhaglen wedi canolbwyntio ar awduron a chyfarwyddwyr.

Nod **Y Labordy** yw ehangu'r gronfa dalent o ran cynhyrchwyr sy'n gweithio yn y Gymraeg. Y gobaith yw rhoi dealltwriaeth i gyfranogwyr o arferion y diwydiant, o apêl rhyngwladol a'u gweledigaeth unigryw eu hunain.

Cynhelir rhaglen **Y Labordy** ar-lein am gyfnod o 6 mis (heb fod yn llawn amser), a bydd yn cynnwys dosbarthiadau meistr a gweithdai fydd yn archwilio sgiliau creadigol, sgiliau ym myd busnes a'r sgiliau penodol sydd eu hangen i arwain ar gynhyrchiad. Fe'u harweinir gan arbenigwyr sy'n gweithio yn y diwydiant, gyda sesiynau mentora pwrpasol unigol yng nghwmni cynhyrchydd profiadol fydd yn cefnogi pob cyfranogwr wrth iddo / iddi weithio ar brosiect penodol neu lechen o brosiectau.

Bydd y rhaglen yn cyflwyno hyn gan ddefnyddio ddull uchelgeisiol ac amlddisgyblaethol, gyda'r cynhyrchwyr yn cael eu hannog i archwilio gweithio ar draws ffilm, teledu a theatr, yn ogystal â llwyfannau eraill fel VR, technoleg trochi a gemau.

Mae 4 lle ar gael.

Ar ddiwedd rhaglen **Y Labordy** bydd y cyfranogion wedi datblygu eu galluoedd cynhyrchu yn ogystal â'u cynlluniau datblygu personol, fydd wedi eu cynllunio gan Ffilm Cymru Wales a'u mentoriaid personol.

## Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau

Dydd Gwener 3ydd Rhagfyr 2021 am 3pm.

## Pwy all ymgeisio?

I fod yn gymwys ar gyfer **Y Labordy** mae'n rhaid i chi fod:

- Dros 18 mlwydd oed a heb fod mewn addysg llawn amser;
- Yn byw yng Nghymru, neu wedi eich geni yng Nghymru ond yn byw yn rhywle arall;
- Wedi cynhyrchu o leiaf un darn o waith ar lefel broffesiynol, ymylol neu fel myfyriwr coleg (e.e. ffilm fer, drama, rhaglen deledu, cyfres ar y wê neu gynnwys ar-lein wedi ei gynhyrchu i safon proffesiynol), A/NEU bod gennych gredyd fel Is-gyfarwyddwr, Cydlynydd Cynhyrchiad, neu gredyd ar lefel gyfatebol mewn adran gynhyrchu ar gynhyrchiad ffilm, teledu neu theatr broffesiynol.

Er mwyn elwa i'r eithaf ar **Y Labordy** dylech hefyd:

- Feddu ar uchelgais i gynhyrchu ffilm nodwedd Gymraeg, cyfres deledu safonol oedd â chyllideb sylweddol  (high-end), neu gynhyrchiad theatr ar raddfa fawr;

- Heb fod wedi bod yn brif cynhyrchydd hyd yma ar ffilm nodwedd orffenedig o dros 60 munud o hyd ac sydd wedi cael ei rhyddhau mewn gŵyl neu mewn theatrau;
- Fod yn berchen ar un neu ragor o broseictau yr ydych yn awyddus i’w datblygu gyda chefnogaeth mentor;
- Fod yn agored i weithio ar draws nifer o lwyfannau, gan gynnwys ffilm, teledu a theatr, yn ogystal â VR, technoleg trochi a gemau;
- Ddangos ymrwymiad i weithio yn yr iaith Gymraeg (bydd cymorth ar gael i’r rheiny sy’n dymuno gwella eu gallu yn y Gymraeg).

Byddwn yn rhoi croeso arbennig i geisiadau gan gynhyrchwyr sy’n nodi eu bod o hil neu ethnigrwydd nad ydynt yn derbyn cynrychiolaeth ddigonol ar hyn o bryd, neu gynhyrchwyr B / byddar, anabl, niwroamrywiol, neu sydd o gefndir cymdeithasol-economaidd dan anfantais. Rydym hefyd yn awyddus i weld ymrwymiad i weithio gyda thalent nad yw’n cael ei chynrychioli’n ddigonol ar draws llechi cynhyrchwyr.

## Sut ydw i’n ymgeisio?

Rhaid cyflwyno ceisiadau ar e-bost i network@ffilmcymruwales.com erbyn y dyddiad cau (gweler uchod). Byddwch mor garedig â chynnwys:

- Y ffurflen gais wedi ei chwblhau;
- CV cyfredol (cofiwch gynnwys dolenni IMDb os yn berthnasol).

Gallwch gyflwyno eich cais yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Wedi i chi gyflwyno eich cais byddwch yn derbyn dolen ar-lein er mwyn cwblhau **ffurflen fonitro cydraddoldeb ac amrywiaeth**. Cesglir y data yn anhysbys ac fe’i defnyddir yn unig yn unol â Deddf Gydraddoldeb 2010, wrth i ni ddatblygu ein Cynllun Gweithredu EDI, ac i adrodd i’n rhanddeiliaid pan fo hyn yn rheidrwydd cytundebol.

Gwnewch yn siŵr eich bod wedi darllen, deall ac ateb pob adran. Ni fyddwn yn ystyried unrhyw gais sy’n cael ei gyflwyno’n hwyr, nag unrhyw gais anghyflawn.

## Allai gael cymorth i wneud cais?

I gael gwybod rhagor am sut i wneud cais a’r hyn rydym yn chwilio amdano, rydym yn argymell eich bod yn cofrestru ar gyfer ein digwyddiad arbennig pan **fyddwn yn lansio Y Labordy** ble fydd cyfle i holi cwestiynau a chael atebion.

Os byddech chi’n elwa o gyngor penodol ynglŷn â sut i wneud cais, mae **sesiynau 1-i-1** hefyd ar gael. Rydym yn arbennig o awyddus i siarad â phobl o grwpiau sy’n cael eu tangynrychioli, a / neu sy’n ymwybodol o’r rhwystrau sy’n bodoli wrth iddynt geisio am arian.

Ar gyfer ymgeiswyr sydd ag anghenion mynediad, er enghraifft unigolion B / byddar, sydd â nam ar eu clyw, sy’n anabl, yn niwroamrywiol neu sydd â nam ar eu golwg, mae cefnogaeth bellach ar gael. Er enghraifft, gallwn dalu costau cyfieithydd BSL ar gyfer cyfarfod â ni cyn i chi wneud cais, neu sicrhau cymorth ysgrifenedig i ymgeiswyr dyslecsig. Nodwch na fedrwn gyflenwi costau mynediad ble mae arian arall eisoes ar gael e.e. cefnogaeth Mynediad at Waith. Ni allwn ychwaith gynnig arian i brynu caledwedd na feddalwedd.

Gallwn hefyd dderbyn y ffurflenni cais trwy'r post, neu atebion mewn fformatau amgen fel fideo byr neu ddec sleidiau. Dylid cytuno ar hyn gyda'n tîm cyn eu cyflwyno.

Byddwch mor garedig â chysylltu â ni er mwyn trafod eich anghenion yn gyfrinachol cyn gwneud cais (gweler y manylion cyswllt isod).

## Manylion cyswllt

Rhaid e-bostio'r ceisiadau gorffenedig at network@ffilmcymruwales.com erbyn dydd Gwener 3$^{ydd}$ Rhagfyr am 3pm.

Os oes gennych gwestiwn i'w ofyn cysylltwch â:

GWENFAIR HAWKINS | Swyddog Datblygu | gwenfair@ffilmcymruwales.com

TRACY SPOTTISWOODE | Cydlynydd Digwyddiadau & Hyfforddiant RHWYDWAITH BFI Cymru | tracy@ffilmcymruwales.com

Gallwch hefyd ein ffonio ar 07902 492109.

Os hoffech i ni roi gwybod i chi am gynlluniau ariannu newydd Ffilm Cymru, ac unrhyw ddigwyddiadau hyfforddi a chyfleoedd eraill, cofrestrwch ar ein rhestr bostio drwy ein gwefan.

## Beth sy'n digwydd i fy nghais?

Unwaith i chi gyflwyno'ch cais, byddwch yn derbyn e-bost yn cadarnhau i ni ei dderbyn ynghyd â chyfeirnod a dolen at ein ffurflen monitro amrywiaeth. Rhaid i chi lenwi'r ffurflen hon cyn y gellir asesu'ch cais. Mae opsiwn 'mae'n well gen i beidio â dweud 'ar gyfer pob cwestiwn.

Os nad yw eich cais yn gymwys, byddwn yn eich hysbysu nad yw eich cais wedi symud ymlaen i'r cam asesu. Os yw eich cais yn anghyflawn, byddwn yn gosod amserlen i chi ddarparu unrhyw fanylion coll cyn i'r cais fynd yn ei flaen i'r cam asesu. Efallai y byddwn hefyd yn gofyn am ragor o wybodaeth gennych chi.

Os yw eich cais yn gyflawn ac yn gymwys, bydd yn symud ymlaen i'r cam asesu.

## Asesiad

Bydd pob cais yn cael ei adolygu gan banel o 2 asesydd, o leiaf, o Ffilm Cymru, S4C a Chyngor Celfyddydau Cymru. Gellir hefyd defnyddio aseswyr allanol yn dibynnu ar natur a faint o geisiadau byddwn yn eu derbyn.

Bydd y meini prawf canlynol yn llywio ein hasesiad:

- Potensial yr ymgeisydd, fel sy’n amlwg o’i ph / brofiad a'i h / uchelgais;
- Y manteision tebygol ddaw i yrfa’r ymgeisydd fel cynhyrchydd yn sgil bod yn rhan o **Y Labordy**;
- Y grŵp o unigolion a gefnogir, gan ystyried cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Rhoddir gwybod i bob ymgeisydd os ydynt wedi cael eu dewis i fod yn rhan o’r rhaglen o fewn pythefnos i ddyddiad cau cyflwyno’r cais. Bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn ymrwymo i Gytundeb Cyfranogwr gyda Ffilm Cymru, sy’n amlinellu telerau ac amodau **Y Labordy**, gan gynnwys drafftio cynllun gyda mentoriaid, a chwblhau adroddiad terfynol ar ddiwedd y rhaglen.

Darperir adborth byr, ar gais, i ymgeiswyr aflwyddiannus.

## Amserlen Y Labordy

Sylwch mai amserlen ddangosol yw hon. Gall  y dyddiadau newid.

- **Dydd Mawrth 9fed Tachwedd 2021** - Ceisiadau’n agor
- **Dydd Gwener 19eg Tachwedd 2021** – Digwyddiad lansio Y Labordy
- **23 a 25 Tachwedd 2021** – Sesiynau 1-i-1
- **Dydd Gwener 3ydd Rhagfyr 2021 am 3pm** - Dyddiad cau’r Cais
- **Dydd Gwener 17eg Rhagfyr 2021** - Hysbysu pob ymgeisydd os ydynt wedi eu dewis a’i pheidio

- **Ionawr 2022** – Cyfranogwyr i gwrdd â thîm Ffilm Cymru a chael cymorth i ddrafftio eu cynlluniau ar gyfer eu gyrfa. Cychwyn ar y gwaith o baru'r ymgeiswyr â'r mentoriaid
- **Chwefror 2022** – Cychwyn y rhaglen a'r mentora ar-lein
- **Gorffennaf 2022** – Gorffen y rhaglen a'r mentora ar-lein

Sylwch os gwelwch yn dda: Bydd y rhaglen ar-lein wedi'i hamserlennu i gyd-fynd ag ymrwymiadau eraill y cyfranogwyr gymaint â phosibl, fodd bynnag, byddwn hefyd yn disgwyl i'r cynhyrchwyr sy'n cymryd rhan yn y rhaglen fod yn bresennol ar y dyddiadau a'r amseroedd perthnasol, fydd wedi eu pennu o flaen llaw.

## Cwestiynau Cyffredinol

### Beth yw 'dod i'r amlwg'?  Ydw i'n rhy brofiadol?

Os ydych wedi gwneud ffilmiau byrion - ar lefel person graddedig neu broffesiynol - ond erioed wedi cynhyrchu teledu na ffilm nodwedd o safon uchel / â chyllideb sylweddol (high-end), neu os ydych wedi cynhyrchu ar gyfer y theatr – ar lefel ymylol neu broffesiynol - ond erioed ar gyfer y sgrîn, yna rydych yn gymwys i wneud cais. Os nad ydych yn siŵr os yw **Y Labordy** yn addas ar eich cyfer, rydym yn argymell eich bod yn cofrestru ar gyfer ein digwyddiad lansio a / neu ar gyfer sesiwn gynghori 1-i-1.

### Pa mor rhugl sydd angen i mi fod yn Gymraeg?

Gall y Gymraeg fod yn iaith gyntaf neu'n ail iaith i chi, neu efallai eich bod yn ddysgwr ar lefel ganolraddol neu uwch, cyn belled â bod gennych chi'r gallu a'r parodrwydd / ymrwymiad i ddeall yr iaith a chyfathrebu ynddi'n effeithiol ag eraill. Bydd cefnogaeth ar gael i'r rheini sy'n dymuno gwella eu gallu ieithyddol.

Er mwyn eich helpu i benderfynu pa mor rhugl ydych chi yn y Gymraeg, mae gwybodaeth ddefnyddiol i'w chael ar wefan y Ganolfan Genedlaethol Dysgu Cymraeg:

(Saesneg) dysgucymraeg.cymru/media/3239/151217description_sgiliau.pdf

(Cymraeg) beacons-npa.gov.uk/wp-content/uploads/151217Disgrifiadoalluargyferpobsgil.pdf

**Cefais fy ngeni yng Nghymru ac rwy'n siarad Cymraeg, ond yn byw y tu allan i Gymru erbyn hyn, ydw i'n gymwys i wneud cais?**

Ydych. Cynhelir y rhaglen ar-lein felly bydd ar gael i'r rheiny sy'n byw y tu allan i Gymru.

**Allai wneud cais os ydw i'n gynhyrchydd dogfen / gwaith wedi ei animeiddio?**

Gallwch. Fodd bynnag, byddwch yn elwa fwyaf o'r rhaglen os oes gennych ddiddordeb ehangach mewn gweithio ar draws nifer o lwyfannau gwahanol fel ffilm, teledu, theatr, VR, technoleg trochi a gemau.

**Beth fydd yr ymrwymiad o ran amser os byddaf yn cael fy newis i gymryd rhan?**

Mae hon yn rhaglen ran-amser 6 mis fydd wedi'i chynllunio i gyd-fynd ag ymrwymiadau eraill y cyfranogwyr. Byddwn yn disgwyl i chi fod yn bresennol yn y sesiynau misol ar-lein, fydd yn gyfuniad o ddosbarthiadau meistr a gweithdai, gyda'r dyddiadau wedi'u penu o flaen llaw. Bydd y mentora yn cael ei drefnu rhwng y mentor a'r sawl sy'n cael ei f / mentora, gydag o leiaf 4 sesiwn dros gyfnod o 6 mis.

**Mae gennyf anghenion mynediad. Os byddaf yn cael fy newis, a fyddwch yn gwneud addasiadau rhesymol?**

Ar gyfer ymgeiswyr sydd ag anghenion mynediad, er enghraifft unigolion B / byddar, sydd â nam ar eu clyw, sy'n anabl, yn

niwroamrywiol neu sydd â nam ar eu golwg, byddwn yn gwneud addasiadau rhesymol wrth gyflenwi'r rhaglen. Os hoffech drafod eich anghenion yn gyfrinachol, mae croeso i chi gysylltu â ni.

**Oes cymorth ar gael o ran gofal plant / swyddogaeth fel gofalydd?**

Bydd bwrsariaethau cymorth ar gael ar gyfer gofal plant yn ogystal â lwfansau i ofalwyr mewn achosion lle na fyddai modd i chi, fel arall, fynychu'r sesiynau. Efallai y gofynnir i chi ddarparu dogfennau i gefnogi eich cais.

# *Atodiad - Arian Loteri Ffilm Cymru Wales CBC - Telerau Busnes Safonol*

Mae'r Telerau Busnes Safonol hyn yn rhan o, a dylid eu darllen ar y cyd ag, unrhyw Gytundeb Cyfranogwr a gyhoeddir gan Ffilm Cymru Wales CBS. Ble mae unrhyw wrthdaro rhwng y ddau, yna mae'r Cytundeb Cyfranogwr yn trechu.

1. Gall y gyfraith a rheoliadau'r Llywodraeth ar ddosbarthu cronfeydd y Loteri Genedlaethol newid. Felly mae Ffilm Cymru Wales yn cadw'r hawl i adolygu cynlluniau cyllido a / neu newid ei bolisïau, ei weithdrefnau a'i feini prawf asesu.
2. Ni fydd Ffilm Cymru Wales yn atebol am unrhyw golled, ddifrod neu gostau sy'n codi'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o:
   - y broses ymgeisio;
   - benderfyniad Ffilm Cymru Wales i beidio â dewis ymgeisydd; neu
   - ddelio â chais.
3. Mae penderfyniadau Ffilm Cymru Wales a phartneriaid ariannol Y Labordy ar geisiadau yn derfynol. Ni fydd apeliadau ffurfiol yn erbyn penderfyniadau yn cael eu hystyried oni bai bod gan yr ymgeisydd achos da i gredu na chadwyd at y gweithdrefnau ar gyfer prosesu'r cais na'u cymhwyso mewn modd sy'n rhagfarnu canlyniad y cais. Gellir gofyn am Bolisi Cwynion Ffilm Cymru Wales gan enquiries@ffilmcymruwales.com.
4. Ni fydd Ffilm Cymru Wales yn darparu mynediad i gyfranogwyr nes eu bod wedi derbyn copi, wedi'i weithredu'n llawn, o'r Cytundeb Cyfranogwr, a hyd nes y bydd unrhyw amodau cynsail, fel y'u diffinnir yn y Cytundeb Cyfranogwr, wedi'u bodloni.
5. Mae'n ofynnol i Ffilm Cymru Wales gyhoeddi gwybodaeth am nifer y ceisiadau y mae'n eu derbyn a'r dewisiadau a wneir: bydd y wybodaeth hon yn cynnwys enw a phroffil yr ymgeisydd llwyddiannus, fydd wedi ei gytuno.
6. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn rhoi hawl i aelodau'r cyhoedd ofyn am wybodaeth benodol sydd gan Ffilm Cymru Wales. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth a gedwir mewn perthynas â cheisiadau i raglenni a chynlluniau ariannu Loteri Genedlaethol Ffilm Cymru Wales. Felly, os dewiswch wneud cais i Ffilm Cymru Wales gellir datgelu'r wybodaeth rydych chi'n ei darparu, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.
7. Mae Ffilm Cymru Wales wedi ymrwymo i wella amrywiaeth a chynhwysiant y diwydiant sgrîn. Gofynnwn i bob tîm sy'n ymgeisio lenwi ffurflenni monitro amrywiaeth yn anhysbys. Gall Ffilm Cymru Wales gyhoeddi unrhyw ddata amrywiaeth anhysbys a ddarperir gennych ar ddata blynyddol a gydgrynhowyd gyda data a dyfarniadau eraill, fel y manylir ymhellach yn ein Polisi Preifatrwydd sydd ar gael ar ffilmcymruwales.com.

8. Mae Ffilm Cymru Wales yn ei wneud yn ofynnol i gyfranogwyr roi credyd i Ffilm Cymru Wales a RHWYDWAITH BFI Cymru, gyda chefnogaeth y Loteri Genedlaethol, Cyngor Celfyddydau Cymru ac S4C yn yr holl ddeunyddiau llafar ac ysgrifenedig cyhoeddedig sy'n berthnasol i'r gefnogaeth a gafwyd, gan gynnwys defnyddio logos Ffilm Cymru Wales, RHWYDWAITH y BFI, y Loteri Genedlaethol, Cyngor Celfyddydau Cymru ac S4C.

9. Gall Ffilm Cymru Wales ddal dyfarniad yn ôl neu ei adennill o dan yr amgylchiadau canlynol:

- fod y cais wedi ei lenwi'n anonest neu'n cynnwys gwybodaeth anghywir neu gamarweiniol, p'un ai'n fwriadol neu'n ddamweiniol;

- os yw'r cyfranogwr yn gweithredu'n anonest neu'n esgeulus mewn perthynas â'r gefnogaeth mae'n ei dderbyn.

AC

- unrhyw doriad arall fel y'i diffinnir yn y Cytundeb Cyfranogwr.

9. Bydd y cyfranogwr yn cyflwyno adroddiad terfynol i Ffilm Cymru Wales ar ganlyniadau eu cyfranogiad yn y rhaglen. Bydd yr adroddiad terfynol hwn yn cael ei rannu gan Ffilm Cymru Wales gyda phartneriaid cyllido Y Labordy, y BFI, Cyngor Celfyddydau Cymru ac S4C.

-